

Mike Palmer, Swyddfa Archwilio Cymru

Mae'r seminarau hyn yn rhan bwysig o waith Swyddfa Archwilio Cymru. Rydym yn ei weld fel cyfraniad pwysig y gallwn ei wneud i wella'r sector cyhoeddus drwy ddod â phobl ynghyd i rannu eu profiadau a'r hyn maent wedi'i ddysgu, yn ogystal â chael mynediad at ddysgu a phrofiadau rhyngwladol. A dyma enghraifft dda heddiw, oherwydd mae gennym ddatblygiad rhyngwladol, fel menter y Cyngor Adrodd Integredig, ac mae gennym hefyd enghraifft ymarferol o hynny'n cael ei roi ar waith ar lefel y DU gydag Ystad y Goron, ac yna mae gennym ein henghraifft o ddysgu o Gymru gan Ddinas a Chyngor Abertawe, lle mae ganddynt draddodiad hir o ddatblygu eu dull o weithredu datblygiad cynaliadwy.

Peter Davies, Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy

Wel pwrpas y seminar hwn mewn gwirionedd yw caniatáu i ni fraenaru'r tir ar gyfer Bil Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae pobl yn brysur gyda'u bywydau o ddydd i ddydd, yn rheoli awdurdodau lleol, yn darparu gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, ac felly mae hwn yn gyfle i fraenaru'r tir ar gyfer yr hyn sy'n dod, sef Bil Cenedlaethau'r Dyfodol - darn o ddeddfwriaeth bwysig iawn gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn ein symud ymlaen yn nhermau datblygiad cynaliadwy yng Nghymru. Mae datblygiad cynaliadwy wedi bod wrth galon datganoli erioed, dyma'r cam nesaf. Ac mewn gwirionedd, mae'r ddeddfwriaeth yn fframwaith i'r sector cyhoeddus o ran sut mae'r sector cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau a sut rydym yn sefydlu fframwaith cyffredin, gyda nodau cyffredin, diben cyffredin, a mesurau cyffredin o ran sut rydym am ddatblygu ar gyfer yr hirdymor yng Nghymru. Felly mae'n gosod ein llwybr datblygu hirdymor. Felly, mae llawer i feddwl amdano, a thipyn o waith paratoi ar ei gyfer. Caiff ei gyflwyno i'r Cynulliad yn yr haf, a'r gobraith yw os aiff i gyd yn ei flaen, bydd cydsyniad brenhinol yn 2015, ac wedyn daw'r ddyletswydd, mewn modd graddol, ond daw i effeithio ar y sector cyhoeddus o 2016 ymlaen.

John Maddocks, CIPFA

Pwrpas fy ngweithdy mewn gwirionedd oedd adnabod y ffactorau allweddol wrth symud strategaeth datblygiad cynaliadwy yn ei blaen. Felly, i mi, y neges yr hoffwn ei throsglwyddo yw ei fod yn gymhleth ond hefyd yn syml. Os torrwyd e i lawr, mae'n ymwneud â phobl, y blaned a ffyniant. Felly, dyna'r elfen gymdeithasol, yr elfen amgylcheddol, a'r elfen economaidd. A gallwch gymryd y rheini fel sefydliad ac edrych yn ofalus arnynt, a dweud wrthynt chi eich hunain "A ydym yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau hynny?" Y bobl rydym ni'n gweithio gyda nhw; y bobl rydym ni'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer; yr economi, yn nhermau'r asedau rydym yn eu defnyddio ond hefyd yn nhermau'r cyfoeth rydym yn ei greu; a'r amgylchedd yn nhermau'r adnoddau naturiol rydym yn eu defnyddio, a'n heffaith arnynt wrth symud ymlaen. Felly, mae'n golygu edrych ar y tri maes hwn wrth iddynt ddod i'r sefydliad, deall sut rydych yn eu defnyddio - a ydych yn gwneud y defnydd gorau ohonynt, ac yna beth yw'r effaith ar yr ochr arall fel petai.

Kate Jefferies, Cyngor Adrodd Integredig Rhyngwladol

Mae'r ffocws o amgylch adrodd integredig, ac mae hon yn fenter sy'n cael ei harwain gan y farchnad a gyflwynwyd gan gynghrair o sefydliadau sy'n dod ynghyd ac sydd wedi datgan bod yn rhaid i adrodd corfforaethol newid. Mae materion yn ymwneud â sefydlogrwydd ariannol a chynaliadwyedd,

a sicrhau yr ymdrinnir â'r materion gan y farchnad, gan fusnesau'n dod at ei gilydd ac yn adrodd mewn ffyrdd gwahanol drwy ddefnyddio adrodd fel offeryn i newid ymddygiad busnes.

Dywedais mai menter sy'n cael ei harwain gan y farchnad yw hon, felly'r hyn a olygir gennyf yw bod gennym ymgysylltiad â nifer o sefydliadau, ac mae rhan o hynny drwy ein rhaglen beilot. Felly, rydym yn gweithio gyda mwy na chant o sefydliadau, sy'n cynnwys y sector cyhoeddus fel Ystad y Goron a Grŵp Comisiynu Clinigol Greenwich er mwyn helpu i brofi'r deunyddiau rydym yn eu datblygu a hefyd rhannu eu harweinyddiaeth meddwl yn nhermau adrodd corfforaethol gyda ni.

Mae adrodd integredig yn ymwneud â darbwyllo sefydliadau o'r gwerth mae'n ei ddarparu, a meddwl ar gyfer pwy mae hynny? Felly yng nghyd-destun y sector cyhoeddus, gall fod i gymdeithas neu i gwsmeriaid - pobl rydych yn darparu gwasanaeth iddynt. Ond hefyd, mae'n ymwneud a gwerth, ond yn bwysig iawn beth yw'r canlyniadau? Gall fod yng nghyd-destun amcanion datblygiad economaidd, neu flaenoriaethau penodol y mae sefydliad yn ceisio eu cyflawni a'r gallu i ddangos y canlyniadau hyn a pheidio cael eu dal mewn system cydymffurfiaeth yn nhermau adrodd.

Mark Gough, Ystad y Goron

Yn y gweithdy roeddwn yn ei redeg heddiw yn uwchgynhadledd Bil Cenedlaethau'r Dyfodol gyda Swyddfa Archwilio Cymru, roeddem ni'n canolbwyntio ar sut bydd integreiddio yn rhan hanfodol o'r hyn y byddwn yn ei wneud gyda Bil Cenedlaethau'r Dyfodol. Felly, yn Ystad y Goron, yr hyn rydyn ni wedi bod yn edrych arno dros y blynyddoedd diwethaf yw sut y gallwn integreiddio ein ffordd o feddwl a bod ag un dull gweithredu ar gyfer yr hyn rydym yn ei wneud, yn hytrach na'r hyn roedd gennym o'r blaen, sef dull gweithredu mewn seilos, lle'r oedd gennym ddulliau gweithredu cynaliadwyedd a dulliau gweithredu busnes, a nawr yr hyn rydym yn ceisio ei wneud yw taflu'r ddau ohonynt i ffwrdd a chael un cwestiwn newydd. Felly nid ydym yn ceisio ateb un cwestiwn ar gyfer cyllid, un ar gyfer cynaliadwyedd, yr hyn rydym yn ei wneud yw ateb cwestiwn newydd ynglŷn â sut rydym yn creu gwerth? Ac mae hynny'n newid ffordd o feddwl ein busnes yn sylweddol. A thrwy edrych ar greu gwerth rydym yn dechrau gofyn cwestiynau gwahanol ynglŷn â ni ein hunain a sut rydym yn ymgysylltu â phobl eraill.

Nawr sut mae hyn yn cysylltu â Bil Cenedlaethau'r Dyfodol? Wel, mae cyfle arbennig yma gyda'r bil yn dod drwyddo yn nes ymlaen eleni i ddechrau meddwl ystyr gwirioneddol integreiddio. Ac os ydym am wneud i hyn weithio i Gymru, yna yr hyn sy'n rhaid i ni ei wneud yw integreiddio cynaliadwyedd o fewn pethau, ac mae yna ffyrdd yn dod drwyddo nawr nad ydynt yn mynd i achosi gwaith ychwanegol i bobl, ond beth fyddant yn ei wneud fydd helpu i symleiddio hynny, ac mae'n rhaid i ni sicrhau y daw hynny drwyddo yma. Felly, gydag integreiddio, beth rydym wedi'i wneud drwy ofyn y cwestiwn newydd hwn yw creu ffordd wahanol o ymgysylltu ac adrodd â phobl sy'n gwneud gwahaniaeth yn y ffordd rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac yn dweud wrthynt beth maent eisiau ei wybod. A dwi'n dyfalu mai un o'r canmoliaethau mwyaf rydym wedi ei dderbyn o'r broses adrodd a beth rydym wedi bod drwyddo hyd yma yw bod pobl yn darllen yr hyn rydym wedi'i gynhyrchu, ac mae hynny'n gwneud gwahaniaeth mawr.

Tanya Nash, Dinas a Sir Abertawe

Dw i'n meddwl mai prif neges fy nghyflwyniad y bore yma oedd sut mae cyflwyno adroddiadau datblygiad cynaliadwy a chyflwyno adroddiadau cynaliadwyedd wedi bod yn offeryn i ni ymgysylltu â phobl ar draws ein sefydliad ynglŷn â sut mae cynaliadwyedd yn berthnasol i'w busnes craidd, a thrwy ddefnyddio dull gweithredu mwy cynaliadwy, maent yn gwneud eu busnes craidd a'u gwasanaethau'n fwy cynaliadwy ac yn eu galluogi i gyflawni canlyniadau cynaliadwy ar gyfer y cymunedau yr ydym mewn lle i'w cefnogi yn fwy effeithiol. Ac fel y cyfryw, nid cynhyrchu darn o bapur ddylai fod diben yr adroddiad, sy'n cynnwys rhestr o ddata, metrigau, a pa mor dda ydym, neu'n gwella ar 70%, neu'n aros yn un fath ar 3%, neu beth bynnag. Dylai fod mwy am sut rydych yn mynd at ati, wrth ddechrau cynhyrchu'r adroddiad, i ddefnyddio pob cam fel cyfle i ddechrau siarad â phobl am y ffordd y mae datblygiad cynaliadwy yn berthnasol i'r gwaith maent yn ei wneud a'r canlyniadau maent yn ceisio eu cyflawni.